

## **Pennu Cwmpas Aseiad Effaith Cydraddoldeb**

Mae'n rhaid i'r cyngor roi sylw teilwng i'r angen am:

- atal gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlid a phob math arall o ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal ar gyfer rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a rhai heb nodweddion felly;
- feithrin perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a rhai heb nodweddion felly.

Yn ôl y Ddeddf, er mwyn rhoi sylw teilwng i'r angen am hybu cydraddoldeb, y mae'n rhaid:

- dileu neu leihau'r anfanteision y bydd pobl yn eu profi oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion rhai sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig, pan fo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl a chanddynt nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan yn y bywyd cyhoeddus a gweithgareddau eraill lle y mae cyfraniad pobl o'r fath yn anghyfartal o isel.

Y nodweddion gwarchoddedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Rhywioldeb

Mae'r ddyletswydd hefyd yn ymwneud â phriodas a phartneriaeth sifil<sup>1</sup> ond dim ond o safbwynt atal unrhyw wahaniaethu annheg o'u herwydd. Yng Nghymru, y mae'n orfodol hefyd i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal ac i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Cewch ragor o gyngor am lunio aseidiadau effaith ar dudalennau cydraddoldeb y Fewnrwyd [http://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/corp\\_cust\\_services/equalities.aspx](http://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/corp_cust_services/equalities.aspx)

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

Teitl y polisi, y drefn, yr ymarfer neu'r penderfyniad (y cyfeirio ato fel 'polisi' ym mhob rhan o'r ffurflen hon) a disgrifiad ohono.	<b>Cynllun Gwella Rhan 1; Amcanion Gwella 2014-2015</b>
--	---

Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi?

Enw	<b>Julia Archampong</b>
Teitl Swydd	<b>Rheolwr Perfformiad</b>
Adran / Cyfarwyddiaeth	<b>Gwella a Pherfformiad, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol</b>

**Crynhoi'r amcanion:**

- Amcan 1:** Sicrhau bod pobl leol yn haws eu cyflogi drwy roi gwell cyfle dysgu iddynt a'u helpu i feithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau byd gwaith.
- Amcan 2:** Sicrhau bod lleoliadau ar gyfer pobl ifanc a phlant sy'n cael gofal yn fwy sefydlog a chynaliadwy.
- Amcan 3:** Helpu mwy o bobl i allu byw'n annibynnol.
- Amcan 4:** Cynnal a gwella canol trefi'r Fro ar gyfer trigolion, ymwelwyr a busnesau.
- Amcan 5:** Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.
- Amcan 6:** Lleihau'r amser y byddwn yn ei gymryd i ddarparu 'grantiau cyfleusterau pobl anabl' ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Amcan 7:** Cynnal a herio ysgolion er mwyn codi lefel cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.
- Amcan 8:** Gwella ein 'gwasanaeth trwsio'n ôl y galw' ar gyfer tenantiaid.

**1. Pwy fydd yn teimlo effaith y polisi hwn?**

Enghreifftiau o rai tebygol yw:- trigolion y Fro, adrannau mewnol, grŵp penodol o gwsmeriaid neu staff, cwsmeriaid neu drigolion mewn lle penodol.

Rhowch fanylion:

**Mae Amcanion Gwella Cyngor Bro Morgannwg 2014/15 yn tynnu sylw at wyth maes y mae'r cyngor am eu targedu er mwyn dod â gwelliannau sylweddol yn gynt. Drwy weithredu'r canlyniadau arfaethedig yn llwyddiannus yn y meysydd perthnasol, dylai fod yn bosibl lleihau unrhyw ddiffyg cydraddoldeb yn y gwasanaeth.**

**Bydd rhai o'r gwasanaethau sy'n cael eu trafod yn yr amcanion unigol yn wasanaethau cyffredinol, a rhai eraill yn canolbwyntio ar grwpiau penodol. Bydd ein hamcanion ar gyfer 2014/15 yn effeithio ar y grwpiau hyn:- trigolion y Fro; oedolion di-waith; pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant; plant o dan ofal; pobl ifanc fregus; oedolion o dan ofal; pobl hŷn; plant ac oedolion anabl; plant ysgol; tenantiaid tai.**

**2. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar bobl o safbwynt oedran?**

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith niwtral / symol

Pa grwpiau oedran fydd y polisi hwn yn eu trafod?

Pobl ifanc (plant a phobl ifanc o dan 18 oed)

People 18- 50

Pobl hŷn (50+)

Pawb

Rhai eraill (rhowch fanylion)\_\_\_\_\_

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Amcan 1 - nod cyffredinol yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar oedolion y Fro o oedran gweithio sy'n ddi-waith ers tro byd, drwy feithrin eu sgiliau academaidd / galwedigaethol, fel y bo'n haws eu cyflogi. Bydd 'ardaloedd o amddifadedd penodol' yn y Fro'n cael eu targedu gan Gymunedau'n Gyntaf a chynlluniau eraill sy'n cael eu noddi gan y llywodraeth.**

**Amcan 2 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar blant bregus y Fro drwy sicrhau bod lleoliadau mwy sefydlog ar eu cyfer.**

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

**Amcan 3 - nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn drwy eu helpu i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, drwy ddarparu gwasanaethau yn y gymuned a chymorth i ofalwyr, a thrwy eu hail-alluogi.**

**Amcan 4 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar drigolion y Fro beth bynnag fo'u hoedran, drwy dwtio strydoedd a'r mannau cyhoeddus rhwng adeiladau a sicrhau ei bod yn fwy ymarferol i fuddsoddi ym mhrif drefi'r Fro.**

**Amcan 5 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant, a rhai sydd mewn perygl o fynd i'r cyflwr hwnnw. Byddwn hefyd yn rhoi cymorth dwys i bobl ifanc fregus sydd am resymau penodol yn methu â chymryd rhan nac ailgydio mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Mae'r asesiad effaith cydraddoldeb a gynhaliwyd yn 2013 ar gyfer strategaeth ddiwygiedig pobl ifanc nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant, yn egluro pob effaith a ragwelir, yn llawn.**

**Amcan 6 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar blant, pobl ifanc ac oedolion drwy eu helpu i fyw'n annibynnol am fwy o amser yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r asesiad effaith cydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfer polisi adnewyddu tai'r cyngor a strategaeth cartrefi hygyrch yn cynnwys grantiau cyfleusterau pobl anabl.**

**Amcan 7 - nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar blant ysgol o dan 18 oed. Mae'r amcan yn ymwneud â chyrhaeddiad pob plentyn yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Serch hynny, bydd hefyd yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant bregus; lleihau'r gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched (a ddaeth yn fwy amlwg yn ysgolion y Fro yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn enwedig o safbwynt ysgrifennu); a chau'r bwlch cyrhaeddiad a achosir gan amddifadedd. Byddwn hefyd yn cydweithio â Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig i godi lefel cyrhaeddiad disgyblion drwy ystyried anghenion dysgu plant o gefndir lleiafrif ethnig.**

**Amcan 8 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar bob tenant sy'n defnyddio'r gwasanaeth trwsio yn ôl y galw.**

**3. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad/ ymarfer hwn yn ei chael ar bobl anabl?**

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith niwtral / symol

Pa nam(au) sydd dan sylw yma?

Nam ar y llygaid

Nam ar y clyw

Anabledd corfforol

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

- Anabledd dysgu
- Cyflwr iechyd meddwl
- Pob un o'r rhain
- Nam arall (rhowch fanylion) \_\_\_\_\_

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau boed ganddo anabledd ai peidio yw nod cyffredinol yr amcanion gwella.**

**Gyda golwg ar amcan 2, y mae mwy o alw am leoliadau lleol ar gyfer plant dan ofal, gan gynnwys plant anabl, na darpariaeth ar hyn o bryd, felly bydd angen canolbwyntio hefyd ar recriwtio rhagor o ofalwyr maeth.**

**Mae pob defnyddiwr gwasanaethau boed yn anabl ai peidio'n cael sylw dyladwy o safbwynt amcan 3 yn ein polisiau a threfnu cyfredol.**

**Prif nod amcan 5 yw sicrhau bod pob myfyriwr/unigolyn ifanc yn gwneud cynnydd da, boed ganddo anabledd ai peidio. Cynigir darpariaeth addas i'r pwrpas a hawdd ei defnyddio sy'n ateb anghenion dysgu pobl ifanc.**

**Mae amcan 6 yn tynnu sylw penodol at yr effaith gadarnhaol y bydd y polisi'n ei chael ar bobl anabl drwy eu helpu i addasu eu cartrefi a byw mor annibynnol ag y mae eu hanableddau'n ei ganiatáu. Mae anabledd hefyd yn faen prawf cymhwyso ar gyfer grant cyfleusterau pobl anabl.**

**Amcan 7 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar blant ysgol o dan 18 oed drwy wella eu rhagolygon. Mae'r gwasanaeth yn symbylu pobl ifanc ac yn rhoi iddynt ddysgu a gwella eu rhagolygon, boed ganddynt anableddau ai peidio.**

**Gyda golwg ar amcan 8, y mae'r gwasanaeth wrthi'n monitro tenantiaid er mwyn nodi unrhyw anghenion newidiol ac yn defnyddio'r data a threfnau cyfredol i ateb anghenion tenantiaid anabl.**

4. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael o safbwynt gwahanol rywiau?

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral/symol

Pwy fydd yn teimlo'r effaith hon?

- Dynion
- Menywod

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau beth bynnag a fo eu rhyw yw nod yr amcanion gwella'n gyffredinol. Bydd y gwasanaethau y mae amcan 1 yn eu trafod yn rhoi sylw dyladwy i anghenion defnyddwyr fel mater o arfer. Mae'r gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi darganfod drwy hynny fod nifer y menywod yn y Fro sy'n manteisio ar addysg i oedolion ac addysg yn y gymuned yn anghyfartal o uchel. Nodwyd bod y gwrthwyneb yn wir am y rhai sy'n manteisio ar y cyfle i ddysgu ac i feithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau cyflogaeth ar ein rhaglen ar gyfer y di-waith hir dymor. Yno y mae'r duedd amlwg o blaid dynion (69%: 31%). Bydd y ddau wasanaeth yn mynd i'r afael â hyn fel rhan o'r asesiadau effaith cydraddoldeb sydd i'w cynnal yn ystod 2014.**

**Dengys yr asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer amcan 5 fod mwy o fechgyn (60%) nag o ferched yn y Fro ar hyn o bryd nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant. Serch hynny bydd cyfleoedd ar gael i'r ddau ryw. Sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud cynnydd yw'r canlyniad cadarnhaol sydd gennym mewn golwg.**

**Codi lefel cyrhaeddiad pob plentyn ysgol o dan 18 oed, lleihau'r gwahaniaeth rhwng lefelau cyrhaeddiad bechgyn a merched (a ddaeth yn fwy amlwg yn ysgolion y Fro yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig o safbwynt ysgrifennu), a chau'r bwloch cyrhaeddiad a achosir gan amddifadedd, yw nod amcan 7.**

**Gyda golwg ar amcan 8, y mae polisi Trais yn y Cartref eisoes ar waith sy'n egluro sut y bydd y gwasanaeth yn helpu tenantiaid o'r ddau ryw sydd wedi dioddef trais yn y cartref.**

5. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar bobl drawsrywiol?

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith niwtral/symol

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau yw nod yr amcanion gwella, a bydd gwasanaethau'n trin pobl drawsrywiol ar sail gyfartal.**

6. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar statws priodasol a phartneriaeth sifil?<sup>(1 gweler y nodyn ar dudalen 1)</sup>

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

Effaith niwtral/symol

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau yw nod yr amcanion gwella a bydd gwasanaethau'n trin statws priodasol a phartneriaeth sifil ar sail gyfartal.**

7. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar feichiogrwydd a/neu famolaeth?

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith niwtral/symol

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau yw nod yr amcanion gwella a bydd gwasanaethau'n trin menywod beichiog a menywod ar gyfnod o famolaeth ar sail gyfartal .**

8. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar wahanol grwpiau o safbwynt eu hil?

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith niwtral/symol

Nodwch y grwpiau sy'n debyg o deimlo effaith y polisi:

Lleiafrifoedd ethnig

Pobl o genedl arall

Ceiswyr lloches / ffoaduriaid

Sipsiwn / Teithwyr

Pawb

Grŵp arall (rhowch fanylion) \_\_\_\_\_

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau beth bynnag a fo ei hil, lliw ei groen neu'i dras ethnig yw nod cyffredinol yr amcanion gwella. Serch hynny, bydd amcanion unigol ar lefel gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar bobl o safbwynt hil, lliw croen, cenedligrwydd neu dras ethnig neu genedlaethol.**

**Mae amcan 2 yn cydnabod y canllawiau statudol ar gyfer diogelu plant o dan Ddeddf Plant 2004 sy'n nodi bod:**

**“plant o grwpiau ethnig du a lleiafrifol (a'u rhieni) yn debyg o fod wedi cael ei wneud yn destun aflonyddu, gwahaniaethu ar sail hil a hiliaeth sefydliadol rywryd neu'i gilydd. Mae cael profiad o hiliaeth yn debyg o effeithio ar ymateb y plentyn a'i deulu i brosesau asesu a holi. O anwybyddu effaith hiliaeth y mae'n fwy anodd diogelu plant rhag mathau eraill o niwed sylweddol. Mae effaith hiliaeth ar gymunedau ac unigolion yn amrywio ac ni ddylid fyth tybio ei bod bob amser yr un fath”.**

**Gyda golwg ar amcan 7, y mae rhaglen Dysgu a Sgiliau Strategaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn helpu disgyblion o gefndir du a lleiafrif ethnig i gyflawni'n well a bydd felly'n cael effaith gadarnhaol.**

**Gyda golwg ar amcan 8, y mae'r polisi gwasanaethu cyfredol ym Mholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y cyngor yn egluro sut y bydd y gwasanaeth yn helpu tenantiaid i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â hil.**

**9. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar wahanol grwpiau o safbwynt eu crefydd, eu credo neu'u diffyg crefydd?**

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral/symol

**Nodwch y grwpiau sy'n debyg o deimlo effaith y polisi:**

- Grwpiau crefyddol  
(rhowch fanylion) \_\_\_\_\_
- Cred (e.e. Dyneiddiaeth)  
(rhowch fanylion) \_\_\_\_\_
- Diffyg crefydd  
(rhowch fanylion) \_\_\_\_\_
- Pawb

**Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol**

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau beth bynnag a fo ei grefydd, ei gred neu'i ddiffyg daliadau yw nod cyffredinol yr amcanion gwella.**



**Mae amcan 2 yn cydnabod bod;**

**'y canllawiau statudol y bydd byrddau lleol diogelu plant yn eu dilyn - sef Diogelu Plant o dan Ddeddf Plant 2004 - yn nodi bod plant a gam-driniwyd neu a gam-drinnir oherwydd daliadau sy'n ymwneud â meddiannu'r corff, dewiniaeth neu unrhyw ddaliadau ysbrydol neu grefyddol eraill, yn fregus iawn, ac y dylid rhoi sylw arbennig iddynt wrth wneud gwaith diogelu'.**

**10. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar wahanol grwpiau o safbwynt eu rhywioldeb?**

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral/symol

Nodwch y grwpiau sy'n debyg o deimlo effaith y polisi:

- Dynion hoyw
- Lesbiaid
- Pobl ddeurywiol
- Pawb
- Grwpiau eraill (rhowch fanylion) \_\_\_\_\_

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau beth bynnag a fo ei rywioldeb yw nod cyffredinol yr amcanion gwella.**

**11. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg?**

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral/symol

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Mae pob un o'r amcanion gwella'r un mor berthnasol i'r Gymraeg ag i'r Saesneg o dan Gynllun Iaith presennol y cyngor. Bydd siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau'r cyngor yn cael yr un cyfleoedd â defnyddwyr gwasanaethau eraill.**

**12. Os ydych wedi sylwi ar effeithiau cadarnhaol neu negyddol (yn hytrach na ‘symol’) ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig, dylech gynnal asesiad effaith llawn.**

Oes angen asesiad effaith cydraddoldeb llawn?

Oes

Nac oes

**Amcan 1: Bydd y gwasanaethau sy’n berthnasol i’r amcan hwn yn rhoi sylw dyladwy i anghenion defnyddwyr fel mater o arfer. Roedd gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned drwy hynny wedi darganfod bod nifer y menywod yn y Fro sy’n manteisio ar addysg i oedolion ac addysg yn y gymuned yn anghyfartal o uchel. Bydd y gwasanaeth yn ymdrin â hyn fel rhan o’r asesiad effaith cydraddoldeb sydd i’w gynnal yn ystod 2014. Nodwyd bod y gwrthwyneb yn wir am y rhai sy’n dysgu ac yn meithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau cyflogaeth ar ein rhaglen ar gyfer y di-waith hir dymor. Yno y mae tuedd bendant o blaid dynion (69%: 31%). Serch hynny, y mae’r ffigurau hyn yn cynrychioli llif o unigolion sy’n ddi-waith ers cyfnod hir ac wedi’u cyfeirio at y rhaglen gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer eu cynorthwyo, ac nid oes modd dylanwadu arnynt mewn unrhyw ffordd.**

**Amcan 2: Byddwn yn sicrhau canlyniadau’r amcan hwn drwy weithredu’r polisiau a’r trefnau presennol sy’n rhoi sylw dyladwy i’r effaith debygol ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig. Serch hynny, y mae’n rhaid i bob gwasanaeth yn y cyngor gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar gyfer polisiau a threfnau newydd. Am na fydd angen unrhyw bolisiau na threfnau newydd er mwyn dod i ben â’r amcan hwn, ni fydd angen cynnal asesiad effaith.**

**Amcan 3: Byddwn yn sicrhau canlyniadau’r amcan hwn drwy weithredu’r polisiau a’r trefnau presennol sy’n rhoi sylw dyladwy i’r effaith debygol ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig. Mae’n rhaid i bob gwasanaeth yn y cyngor gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar gyfer polisiau a threfnau newydd. Am na fydd angen unrhyw bolisiau na threfnau newydd er mwyn dod i ben â’r amcan hwn, ni fydd angen cynnal asesiad effaith. Bydd pob defnyddiwr yn cael ei asesu er mwyn i ni allu darparu’r union wasanaethau sydd eu hangen arno. Bydd yr asesiad yn rhoi sylw penodol i alluoedd yr unigolyn ac yn cymryd pob nodwedd warchoddedig i ystyriaeth.**

**Amcan 4: Bydd y gwasanaeth yn cydweithio â phartneriaid statudol a sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector i wella canol trefi ar draws y Fro gan sicrhau fel mater o arfer fod pob prosiect yn rhoi sylw dyladwy i anghenion defnyddwyr. Bydd y gwasanaeth hefyd yn dibynnu i raddau helaeth ar nawdd allanol a bydd amodau’r grant yn pwysleisio’r angen am gydraddoldeb.**

**Amcan 5: Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer strategaeth pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant (Awst 2013). Bydd hyn yn sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu cyfeirio at y rhai mwyaf anghenus ymhlith y bobl ifanc a ddsbarthwyd i’r categori hwn. Mae’n bosibl y bydd rhai a chanddynt broblemau unigol sy’n dwysau’r angen sydd arnynt yn methu â**

manteisio ar bob darpariaeth. Byddwn wedyn yn ceisio cynnig opsiynau eraill fel y bo'n briodol yn unol â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid Cymru.

**Amcan 6:** Cafodd Polisi Adnewyddu Tai 2014 ei ddiwygio'n ddiweddar a'i fabwysiadu ym Mawrth 2014. Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb drafft ar gyfer Polisi Tai 2014 sy'n cynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl.

**Amcan 7:** Byddwn yn sicrhau canlyniadau'r amcan hwn drwy weithredu'r polisïau a'r trefnau presennol sy'n rhoi sylw dyladwy i'r effaith debygol ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig. Serch hynny, y mae'n rhaid i bob gwasanaeth yn y cyngor gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar gyfer polisïau a threfnau newydd. Am na fydd angen unrhyw bolisïau na threfnau newydd er mwyn dod i ben â'r amcan hwn, ni fydd angen cynnal asesiad effaith.

**Amcan 8:** Yr effaith a ragwelir ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig na ellir eu boddhau drwy weithredu polisïau a threfnau cyfredol. Rydym yn ad-drefnu'r gwasanaeth trwsio tai yn ôl y galw ar hyn o bryd ac am weithredu trefniadau newydd er mwyn gallu canolbwyntio'n fwy ar ein cwsmeriaid a sicrhau eu bod yn fwy bodlon. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y gwasanaethau'n addas i'r pwrpas o gyflawni ein hamcanion tai ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Cynhelir asesiad effaith cydraddoldeb yn ystod 2014 yn unol â gofynion y cyngor wrth gyflwyno polisïau a threfnau newydd.

### 13. Awdurdodi

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei hawdurdodi gan Bennaeth y Gwasanaeth neu Reolwr Gweithredol perthnasol.

Cymeradwywyd gan (enw)	Huw Isaac
Teitl Swydd	Pennaeth Perfformiad a Datblygu
Dyddiad	11 Ebrill 2014

Llofnod \_\_\_\_\_

Ar ôl ei llenwi dylech anfon copi llofnodedig a chopi electronig o'r ffurflen hon i'r Adran Gydraddoldeb: [tsgreaves@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:tsgreaves@valeofglamorgan.gov.uk). Am gymorth, ffoniwch: 01446 709446

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

